Contract: Parhaol / Amser-Llawn (37 awr yr wythnos)

Cyflog: £29,434 y flwyddyn

Lleoliad: Lleolir yn Aberteifi, Ceredigion, SA43 1JS

Efallai y bydd angen teithio a gweithio mewn lleoliadau Area 43 eraill

Buddion: Cyfraniadau pensiwn: 3% cyflogwr; 5% gweithiwr 20 diwrnod o wyliau ynghyd â gwyliau banc

Mae Area 43 yn chwilio am swyddog ariannol profiadol i ymuno â'n tîm bach. Byddwch yn cefnogi'r Dirprwy Brif Weithredwr i ddarparu gweinyddiaeth ariannol beunyddiol. Byddwch yn arwain y gwaith o baratoi gwybodaeth ariannol a chyfrifyddu'r cwmni ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Bydd hyn yn cynnwys darparu a dadansoddi adroddiadau rheoli chwarterol, paratoi cyfrifon blynyddol, cyllidebau a rhagolygon a sicrhau bod rheolaethau ariannol ar waith. Byddwch hefyd yn gyfrifol am swyddogaeth cyflogres yr Elusen.

Mae Area 43 wedi ymrwymo i gydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth a chroesawn geisiadau gan bob ymgeisydd sydd â chymwysterau addas. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gwaith cefnogol lle caiff pob unigolyn ei barchu, ei werthfawrogi a'i gynnwys.

Os hoffech ragor o wybodaeth a chyfarwyddiadau ar sut I wneud cais, lawrlwythwch y pecyn gwybodaeth recriwtio neu ffoniwch Sally Hurman yn Area 43 ar 01239 614566 i ofyn am gopi, neu i drefnu sgwrs gyda'r rheolwr perthnasol.

Pecyn Gwybodaeth Recriwtio

Ffurflen Monitro Amrywiaeth

Dyddiad cau: 07/05/2024